

Cyfnwrth – W, Cotton Cleopatra A XIV, f. 92r

Cyfar

Pwy bynhac a torho kyuar a wnel o'e uod, talet tri buhyn camlwrw y'r brenhin, ac y'r kyfarwr y ar oll.

Iorwerth – E, BL Add. 14931, f. 44v

Cyfar

Paub byeu duyn y dewnydyeu y eredyc, nac ych na heyrn na phetheu ereyll a uo ydau. Gwedy y del pob peth atadunt, yr amaeth a'r geylwat byeu cadu y reyn hynny yn dywall a gwneuthur ydau kystal ac yr eydun ehun. Y geylwat a dyly cayu arnunt ual na bo ry gyuyg ac na bo ry ehag, a galu ual na thorroent eu calonneu. Ac o deruyd druc udunt yn hynny o uessur, ew a'y tal neu ynteu y lu na wnaeth ydau waeth noc y'r eydau ehun. Yr amaeth ny dyly talu yr ychen onys bryu, ac os bryu talet neu wadet. Yr amaeth a dyly cymorth y geylwat o daly yr ychen, ac ny dyly ellug namyn deu uyrrewys. Gwedy darfo y cyueyr, paub pyeu cyrchu y dewnydyeu atau adrew.

Cyfnwrth – W

Cyfar

Pwy bynnag a dorro gyfar a wnêl o'i fodd, taled dair buwch yn gamlwrw i'r brenin, ac i'r cyfarwr ei aredig oll.

Iorwerth – E

Cyfar

Y mae'n ddyletswydd i bawb ddod â'i ddefnyddiau i aredig, boed yn ych, neu yn heyrn neu yn bethau eraill a fo ganddo. Wedi i bopeth ddod at ei gilydd, dyletswydd yr amaethwr a'r geilwad yw cadw'r rhai hynny'n ddiwall a'u trin cystal â'u heiddo eu hunain. Mae'n iawn i'r geilwad gau arnynt fel na bo'n rhy gyfyng ac na bo'n rhy eang, a galw fel na thorrent eu calonnau. Ac os digwydd drwg iddynt yn y mesur hynny, ef a dâl [amdano] neu [roddi] ei lw na wnaeth yn waeth iddo nag i'w eiddo ei hun. Nid yw'n iawn i'r amaethwr dalu am yr ychen onid anafa hwy, ac os anafa hwy taled neu waded. Mae'n iawn i'r amaethwr gael cymorth y geilwad wrth ddal yr ychen, ac ni ddylai eu gollwng heblaw'r ddau sydd yn dwyn yr iau fer. Wedi i'r cyfar ddod i ben, dyletswydd pawb yw casglu ei ddefnyddiau ato adref.

Iorwerth – E, BL Add. 14931, f. 45r

Llwgr yd

Am lugyr yt. Pob perchen yt byeu cadu y yt, a phob perchen ysgrybyl cadu y yscrybyl, ac urth hynny y mae yaun y paub daly ar y yt. Ac ysew y mae yaun daly: ar y gayauar aryant hyt uyl San Freyt, ac o hyny allan dym yn llugyr. Y gwahannóynar o wyl San Freyt hyt Galan Mey, aryan tal; o Galan Mey allan, dywuyn llugyr. Ym pob amser y dyllug yscrybyl o garchar, ny dylyir namyn aryant. Sew ual y dylyir talu aryant: ceynnyauc o uarch a dymey o eydyon. Ebaul neu eboles o pen y petwarydyd ar dec allan gwedy y ganher, ceynnyauc amdanau. Llo o'r pan aner hyt Galan Gayaw, y warchae o'r pryt buy gylyd, neu tra uuynt yn dynu eu gwarchae o'r pryt buy gylyd, neu eu cymysgu ac eu mam. Sew hyt y dylyant dynu: hyt Galan Mey, ac o hynny allan un ureynt ac eu mam ynt. Y moch a'r deueyt a'r geyuyr a'r guydeu a'r yeyr, eyl dewys onadunt a dylyir. Y perchyll bycheyn o'r pan ymchwelo byswelyn a'y druyn, un gyureyth a'y uam ar yt. Yn y gyureyth y bu huch o'r moch ac un o'r man yscrybyl, ceny bey namyn try lludyn onadunt. Sew achaus oed hynny, moch a aey y'r nep pyeyfoent, a huch a trygey y berchennauc yr yt. Ny dylyit huch o duy hych, canyt aey y moch y'r perchennauc o trygey yuelly. Odyna y symduyt: o'r pymthec llydyn moch, un; ac o'r dec llydyn ar ugeynt o'r deueyt, dauat; ac o'r geyuyr a'r yeyr a'r guydeu, vn o'r dec ar ugeyn yuelly.

Iorwerth – E

Llwgr yd

Am lwgr yd. Dyletswydd pob perchen yd yw cadw ei yd, a phob perchen anifeiliaid i gadw ei anifeiliaid, ac oherwydd hynny y mae'n iawn i bawb ddal oddi ar ei yd. A dyma sut y mae dal yn iawn: ar aredig y gaeaf, arian hyd wyl San Ffraid, ac o hynny ymlaen dim am y difrod. Aredig y gwanwyn o wyl San Ffraid hyd Galan Mai, arian tâl; o Galan Mai ymlaen, talu am y difrod. Ym mhob amser i ryddhau anifeiliaid o gaethiwed y lloc, nid oes hawl i ddim ond arian. Dyma sut y dylid talu arian: ceiniog am farch a dimai am eidion. Ebol neu eboles o ddiwedd y pedwerydd dydd ar ddeg ymlaen wedi iddynt gael eu geni, ceiniog amdano. Llo o'r amser y ganer hyd Galan Gaeaf, ei gau i mewn o un pryd hyd y llall, neu tra bônt yn sugno eu cau i mewn o un pryd hyd y llall, neu eu cymysgu â'u mam. Dyma'r hyd y dylent sugno: hyd Galan Mai, ac o hynny ymlaen byddant yn un frait â'u mam. Y moch a'r defaid a'r geifr a'r gwyddau a'r ieir, mae hawl i ail ddewis ohonynt. Y perchyll bychain o'r amser y byddant yn troi tom â'u trwyn, byddant yn un gyfraith â'i fam ar yd. Yn y gyfraith [a fu] roedd un hwch o'r moch ac un o'r mân anifeiliaid, er na fyddai ond tri anifail. Dyma'r rheswm am hynny, âi'r moch at bwy bynnag oedd piau hwy, ac arhosai'r hwch gyda perchennog yr yd. Nid oes hawl i hwch o ddwy hwch, gan nad âi'r moch i'r perchennog ped arhosai hi felly. Wedyn fe newidiwyd: o'r pymtheg anifail o'r moch, un; ac o'r deg anifail ar hugain o'r defaid, dafad; ac o'r geifr a'r ieir a'r gwyddau, un o'r deg ar hugain yn yr un modd.

Blegywryd – M, Peniarth 33, f. 84r

Llwgr yd

O'r pan dotter yt ynn y dayar hynny el ynn y ysgub, aryant tal a daw drostaw, ac odynta ysgub iach yn lle y glaf. O pob march a uo hual neu lawhethyr arnaw, keinnac y dyd a dwy y nos. Or byd dysgyurith, dimei y dyd a chiniawc y nos. Or byd disgyureithir oll pan dalher y march ar yr yt, talet tri buhyn camlwrw y'r brenhin. Or byd hagen vn egwynt am y troet, ny dylyir colly dim. O pob eidon buarth, dimai y dyd a cheinnawc y nos. O cadw kyurith o'r moch, dalyet yr hwch a dewisso eithyr y tri llydyn arbennic, a gadet o'r pret y gylid, ac yna knigyet hi yg gwyd tyston y'r perchen. Ac onnys dillwg o'e chyurith, gwnaet i deilat y defnyd ohonnei. O'r cadw kyureith o'r deuaith, dauat a geffir ohonnunt, a phyrllig o bop pym llydyn hyt y cadw kyureith. Sef y kadw kyureith o'r moch: deudec llydyn a baed. Meint y cadw kyureith o'r deueit: dec llydyn ar hugeint a hwrdd. O pob oen y telir wy iar hyt y cadw kyureith, ac yna oen a telir drostunt. O'r geifyr a'r myneu y dadyl gyffelyp. Y neb a gaffo gwydeu ynn y yt, torret ffon kyhyt ac o ben y elin hyt ym pen y bys bychan ynn y brasset y mynho, a lladet y gwydeu ynn yr yt a'r ffon. Ac a lladho y maes o'r yt, talet. Gwydeu a gaffer yn llygru yt trwy yscubore neu trwy ytlan, gwascer gwialen ar eu mynygleu o gatter yno hynny vont veirw. Y neb a gaffo iar ynn y ard lin neu yn y ysgubawr, dalyet yar hynny dillygho y perchen hi o wy, neu or deila y keilawc, torret ewin idaw a gollyget ef yn ryd, neu gymeret wy o bop iar oc a uo yn y ty. Y neb a dalho cath yn llygotta ynn y ard lin, talet y'r perchen y llwgyr. Y neb a gaffo lloi ynn y yt, dalyet wy o'r pryt y gylid heb laeth eu mameu, ac yna gollyget yn ryd.

Blegywryd – M

Llwgr yd

O'r amser y dodder yd yn y ddaear hyd nes iddo fynd yn ei ysgub, daw arian tâl drosto, ac wedyn ysgub iach yn lle'r un glaf. Ar gyfer pob march y bo hual neu lyffethair arno, [telir] ceiniog y dydd a dwy y nos. Os bydd heb lyffethair, dimai y dydd a cheiniog y nos. Os bydd y march wedi ei ryddhau'n llwyr pan ddalier ef ar yr yd, taled dair buwch yn gamlwrw i'r brenin. Fodd bynnag os bydd un hual am ei droed, ni ddylid colli dim. Ar gyfer pob eidion buarth, [telir] dimai y dydd a cheiniog y nos. O'r cadw cyfreithiol o'r moch, dalied yr hwch a ddewiso ar wahân i'r tri anifail arbennig, a'i chau i mewn o un pryd hyd y llall, ac yna cynigied hi yng ngwŷydd tystion i'r perchennog. Ac oni ryddhao ef hi o'i chyfraith, gwnaet y deiliad ei ddefnydd ohoni. O'r cadw cyfreithiol o'r defaid, dafad a geir ohonynt, a ffyrlling am bob pum anifail hyd at y cadw cyfreithiol. Dyma'r cadw cyfreithiol o'r moch: deuddeg anifail a baedd. Maint y cadw cyfreithiol o'r defaid: deg anifail ar hugain a hwrdd. Ar gyfer pob oen y telir wy iar hyd at y cadw cyfreithiol, ac yna telir oen drostynt. Ar gyfer y geifr a'r mynnau yr un ddadl. Pwy bynnag a gaffo wyddau yn ei yd, torred ffon gyhyd ag o ben ei elin hyd at ben ei fys bychan, mor drwchus ag y mynno, a lladded y gwyddau yn yr yd â'r ffon. Ac am unrhyw rai a laddo y tu allan i'r yd, taled. Gwyddau a gaffer yn llygru yd trwy ysguboriau neu trwy fuarth yd, gwasger gwialen ar eu gyddfau a gadawer [honno] yno hyd nes y bônt farw. Pwy bynnag a gaffo iar yn ei ardd lin neu yn ei ysgubor, dalied yr iar hyd nes y rhyddhao ei pherchennog hi ag wy, neu os deil y ceiliog, torred ei ewin a gollynged ef yn rhydd, neu cymered wy ar gyfer pob iar a fo yn y ty. Pwy bynnag a ddalio gath yn llygota yn ei ardd lin, taled i'r perchennog am y difrod. Pwy bynnag a gaffo loi yn ei yd, dalied hwy o un pryd hyd y llall heb laeth eu mamau, ac yna gollynged hwy yn rhydd.